

# Maddeuant

## Darllen: Mathew 6:12

Trown heddiw at gymal o Weddi'r Arglwydd yn Efengyl Mathew. Y peth cyntaf i'w gofio yw mai gweddi'r disgybl yw hon, 'Pan welodd Iesu y tyrfaeodd, aeth i fyny'r mynydd, ac wedi iddo eistedd i lawr daeth ei ddisgyblion ato' (Mathew 5:1). Mae Iesu'n rhoi model i ni o weddi ystyrllon, gyda'r tri chymal cyntaf yn ymdrin â Duw a'r tri olaf yn ymwneud â'n hanghenion ni. Rhoddir y lle cyntaf i Dduw, cyn troi at ein hanghenion a'n dyheadau personol. Y cam cyntaf bob amser yw plygu'r ewyllys i bwrpas Duw. Mae'r cymalau sy'n delio â'n hanghenion ni yn dilyn tri cham. Ein hanghenion bob dydd – bwyd; adalw'r gorffennol trwy ofyn am faddeuant; ac edrych i'r dyfodol trwy ofyn am gymorth i wynebu tentasiynau.

Cyn mynd ati i ddadansoddi'r cymal hwn o'r weddi, beth am droi at yr olygfa honno o'r tad yn rhedeg i gyfarch y mab a fu yn y wlad bell, 'Tosturiodd wrtho, rhedodd ato, a rhoes ei freichiau am ei wddf a'i gusanu' (Luc 15:20). Mae'r tad yn colli'i urddas, gan nad oedd dynion yn arfer rhedeg yng nghyfnod Iesu, ac yn rhedeg i groesawu un oedd wedi dod â gwarth ar y teulu. A dyma'r allwedd i ddeall y rhan hon o'r weddi. Er mwyn goleuo a rhoi ysgytwad i'w wrandawyr, mae Iesu'n mynd o'i ffordd i sôn am ddyn oedd yn barod i redeg i groesawu'r mab, er mwyn dangos ei fod yn maddau iddo. Felly, mae Iesu'n mynd o amgylch pentrefi Galilea i gyhoeddi bod teyrnasiad Duw ar waith, bod maddeuant i'w gael, a bod Duw yn trawsffurfio'i bobl i fod yn halen y ddaear ac yn oleuni'r byd. A phan yw pobl yn ymateb i'w alwad, mae'n rhoi cyfarwyddiadau iddynt ynglŷn â byw bywyd y Deyrnas. Hwyl bellach ydi pobl yr ecsodus newydd, 'pobl maddeuant pechodau'. Gelwir hwy i fod yn gelloedd bywiol, yn bobl Iesu yn byw gweledigaeth y Deyrnas. Ac yma, mae Iesu'n arwain ei bobl i ymarfer hen draddodiad a gorchymyn y Jiwbilî. Nid yn unig yr oedden nhw i faddau pechodau ei gilydd, nid oedden nhw chwaith i dderbyn

dyledion – ‘a maddau i ni ein dyledion’ oedd yr hen gyfieithiad, ‘fel y maddeuwn ninnau i’n dyledwyr’ (Mathew 5:12, Beibl 1620).

Y newydd da yma yw bod maddeuant i’w gael am fod Iesu’n awyddus i’w ddisgyblion ofyn am faddeuant. Os gofynnwn i Dduw faddau i ni, y prawf o’i faddeuant yw ein bod ni’n awyddus i faddau i eraill. Bydd y disgybl yn cydnabod bod derbyn maddeuant Duw yn arwain wedyn yn anochel at faddau i eraill. Mae yna gamau pendant yn y broses o faddau. Yn gyntaf, mae Duw yn maddau i ni, a ninnau’n derbyn ei faddeuant ac yna’n maddau i eraill, neu’n hytrach Duw yn maddau i eraill trwom ni. Cawn adlais o hyn pan ymddangosodd y Crist Byw i’r disgyblion oedd wedi cau eu hunain mewn tŷ, ‘oherwydd eu bod yn ofni’r Iddewon’ (Ioan 20:19). Y rhain yw’r disgyblion oedd wedi cefnu arno yn awr ei ofid a’i boen ar Galfaria, ond yn awr maen nhw’n cael profiad uniongyrchol o’i faddeuant, ‘Os maddeuwch bechodau rhywun, y maent wedi eu maddau; os peidiwch â’u maddau, y maent heb eu maddau’ (23). Pan gawsant brofiad o faddeuant Iesu, fe’u rhyddhawyd hwythau i faddau yn ei Ysbryd maddeugar ef. Dyma egwyddor y bywyd Cristnogol, Duw yn maddau i ni, a ninnau’n maddau i eraill.

### **Myfyrdod pellach:**

Ydych chi’n ei chael yn anodd maddau? Ai dyma’r her fwyaf i chi?

A oes gennych brofiad o faddau? Oedd rhaid talu’r gost?